| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| DYDDIAD | **25 Mai 2023** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **Cyflwyno –**<br>• **Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022/23, a**<br>• **Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn archwiliad** |
| GWEITHREDIAD | **Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon** |
| AWDUR | **Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol** |

---

## 1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.

1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd).

1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen flynyddol o'r cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

## 2. CYFRIFON 2022/23

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2022/23 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2022/23 wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dewi Aeron Morgan) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer Harbyrau Gwynedd.

2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os

bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14 Rhagfyr 2023.

2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen.

2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Nid oedd gwariant cyfalaf gan Harbyrau Gwynedd yn 2022/23.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau,** sef :–

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022/23 – Atodiad A
- Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B